Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Syr Thomas Winsor WS
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Heddluoedd
tom.winsor@hmicfrs.gov.uk

6 Awst 2020

Annwyl Syr Tom

**Sefyllfa Plismona: Asesiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr 2019**

Darllenais eich adroddiad â diddordeb, a dymunaf fynegi fy nghefnogaeth ar gyfer rhai o'r pwyntiau a godoch.

***"Mae angen fwyfwy i ddatblygu system gorfodi'r gyfraith sengl effeithiol ac effeithlon, gydag elfennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol clir."***

Efallai y byddwch wedi gweld yn fy ymateb i'r Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru fy mod i a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill Cymru'n llwyr gefnogi mwy o ddatganoli yng Nghymru. Mae hyn o ran plismona yn ogystal â'r swyddogaethau ehangach o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Byddai ein hymdrechion ar y cyd i ffurfio Bwrdd Partneriaeth Plismona ar gyfer Cymru a'r cysylltiadau â Llywodraeth Cymru sy'n parhau i gryfhau'n cefnogi'ch cynnig ar gyfer y trefniadau presennol. Mae'r gydnabyddiaeth o fewn eich adroddiad o'r system recriwtio Cymru gyfan yn un enghraifft o sut y gellid cyflawni hyn.

***"Mae problemau dwfn o fewn y fformiwla ariannu nad yw'r arian ymgodiad yn eu trin."***

Dyma broblem yr wyf wedi'i chodi'n gyson fel pwysau mawr ar heddluoedd, fel y nodir o fewn fy ymateb i'ch ymgynghoriad ar eich fformwleiddiad adroddiad Cyflwr Plismona 2018. Mae'n hollbwysig fod hyn yn cael ei ddatrys gyda golwg ar y tymor hir os yw'r gwasanaeth i gyflawni ei Weledigaeth 2030. Ni fydd y grantiau untro'n cyflawni'r diwygiad graddfa gyfan sydd angen.

***"Mae'r galw am blismona'n trechu cyflenwad yn sylweddol… a bydd [Ymgyrch Uplift] yn creu disgwyliadau cyhoeddus uwch, yn arbennig mewn perthynas ag amlygrwydd yr heddlu… yn syml, mae'n rhaid i heddluoedd flaenoriaethu."***

Yr wyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth o fewn adroddiad Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sydd wedi cefnogi fy ymateb i'r rhai sy'n profi argyfyngau iechyd meddwl. Fel yr ydych yn ei nodi, deilliodd hyn o fwlch mewn darpariaeth gofal iechyd meddwl brys, sy'n fwlch sydd heb fod yn unigryw i iechyd meddwl, gan fod y gwasanaeth iechyd yn brwydro fwyfwy i fodloni ei alw hefyd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Mae bodlonrwydd cyhoeddus o ran rhwyddineb cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys yn uchel, fel y mae ei allu presennol i ymateb i alwadau cyhoeddus am wasanaeth o fewn amserlen resymol. Fodd bynnag, mae galwadau gan y cyhoedd yn arwain at ofynion mwy cymhleth yn cael eu gosod ar heddluoedd. Yn hwyr yn 2019, cyhoeddais adroddiad gyda manylion am ganfyddiadau fy swyddfa o ran cyswllt cychwynnol Heddlu Dyfed-Powys â'r cyhoedd. Nodais nad oedd yr Heddlu'n medru cynnal ei strategaeth bresennol ar gyfer rheoli cyswllt â'r cyhoedd oherwydd pwysau galwadau cynyddol i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Byddaf yn parhau i gefnogi'r Heddlu i weithio gydag asiantaethau partner er mwyn hyrwyddo a datblygu'r ymgyrch #galwngywir ymhellach.

Yr wyf wedi bod yn galw ar Heddlu Dyfed-Powys ers sbel i wella ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd o ddata galw er mwyn blaenoriaethu penderfyniadau mewn perthynas â lleoli adnoddau. Yr wyf wedi cadarnhau y dylai unrhyw flaenoriaethu o'r fath fod yn dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn hollbwysig, rhaid cyfathrebu hyn yn glir wrth ein cymunedau. Mae'n rhaid i'r negeseua gael cefnogaeth yr Arolygiaeth a'r Swyddfa Gartref os ydym am gynnal hyder y cyhoedd.

Diolch i chi a'ch tîm am fynegi'r materion hollbwysig hyn mewn geiriau.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: Y Prif Gwnstabl Mark Collins QPM

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
**gwefan** www.dyfed-powys.pcc.police.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner